**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 6 Medi 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd, (Is-Gadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | A S Lewis |
| J A Raynor | M Sherwood | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Rachel Evans | Prif Swyddog - Cefnogi Pobl, Gwasanaethau i Oedolion |
| Ben George | Swyddog Strategaeth Cludiant |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins, R C Stewart a M Thomas

---

## 10 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd M Sherwood fudd personol yng Nghofnod 12 "Ariannu Cyfalaf Cronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru" fel aelod o fwrdd WCADA. Ni bleidleisiodd y Cynghorydd Sherwood dros yr eitem hon.

## 11 Cofnodion:

**Penderfynwyd** llofnodi cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennol 2017 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 12 Arian Cyfalaf Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd y Prif Swyddog dros Gefnogi Pobl adroddiad i roi gwybod i'r panel am y bwriad i wneud cais am gynnig grant newydd.

Amlinellodd fod y cyngor yn ymddwyn fel derbynnydd grant i alluogi sefydliadau partner i dderbyn arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grantiau hyn yn rhan o gyllid y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Cynigiwyd grant gwerth £85,491.07 i alluogi WCADA (Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru) i ariannu gwelliannau yn ei hisadeiledd TGCh.

Bydd WCADA yn ariannu costau cynnal y cyfarpar ac nid oes unrhyw gostau i'r awdurdod wrth dderbyn y cynnig, oni bai am gostau gweinyddu derbyn y grant a'i ddostalu.

**Penderfynwyd** y dylai'r panel nodi'r goblygiadau yn yr adroddiad a **chymeradwyo** derbyn y grant.

## 13 Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd y Prif Swyddog dros Gefnogi Pobl adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i dderbyn Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Byddai'r arian yn cefnogi awdurdodau lleol i reoli effeithiau ariannol costau a threfn newid y gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig y pwysau sy'n codi o'r cyflog byw cenedlaethol.

Nod y grant yw galluogi'r sector gofal cymdeithasol i wynebu'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â'r cyflog byw cenedlaethol. Mae sicrhau bod y bobl sy'n gweithio yn y sector yn cael eu gwobrwyo'n addas ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud yn rhan o'r ystod ehangach o welliannau i'w hamodau a thelerau. Disgwylir i'r newidiadau hyn gefnogi gwelliant yn safon a pharhad y gwasanaeth a gyflwynir.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol am y term Cyflog Byw Cenedlaethol a gofynnodd a oedd y term cywir yn cael ei ddefnyddio neu a ddylid defnyddio'r term 'Isafswm Cyflog' yn lle. Dywedodd y Prif Swyddog dros Gefnogi Pobl y byddai'n gwirio'r derminoleg a ddefnyddiwyd.

**Penderfynwyd:**

1) Y byddai'r Prif Swyddog yn gwirio'r term 'Cyflog Byw Cenedlaethol';
2) Y byddai'r panel yn nodi goblygiadau'r adroddiad ac yn **cymeradwyo** derbyn y grant.

## 14 Cais 2017/18 Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Lleol.

Cyflwynodd y Swyddog Strategaeth Cludiant adroddiad i gymeradwyo'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol 2017/18.

Byddai'r cais yn cyflwyno cyfres o welliannau i wella effeithlonrwydd y rhwydwaith priffyrdd mewn ardaloedd lle ceir tagfeydd yn aml oherwydd traffig oriau brig. Bydd y mesurau'n gwella dibynadwyedd amser teithio ar gyfer teithiau cludiant cyhoeddus ar fysus ac yn cefnogi'r cysyniad o gyfnewidfeydd bysus. Bydd y cyfnewidfeydd yn hyrwyddo gwell integreiddio rhwng dulliau cludiant, ac yn nodi'r camau cyntaf o ran cyfuno rhwydwaith o opsiynau cludiant er mwyn dechrau trefnu a gwireddu system cludiant integredig ar gyfer Abertawe a De-orllewin Cymru.

Roedd y cais am gyllid eisoes wedi cael ei gyflwyno oherwydd yr amser cyfyngedig a roddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng y gwahoddiad a'r dyddiad cyflwyno. Cafwyd cymeradwyaeth gan Aelodau'r Cabinet cyn cwblhau'r ceisiadau.

Gofynnodd yr aelodau amryw o gwestiynau ac ymatebodd y Swyddog yn briodol.

**Penderfynwyd** y byddai'r Panel Ariannu Allanol yn **cymeradwyo'r** cais i'r Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol 2017/18.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.47 pm

**Cadeirydd**